

Cynnwys

Rhaglen	2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
6 - Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg (Drafft)	11
Atodiad 1	13
7 - Strwythur Ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Iaith	46
8 - Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor 2013-14	48
Atodiad 1	49
9 - Cwynion Iaith	52



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD IAU, 23 HYDREF, 2014

10.30AM, THURSDAY, 23 OCTOBER, 2014

Lleoliad / Location

SIAMBR HYWEL DDA,
SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,
STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 15/10/14)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cyngorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Sian Gwenllian

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cyngorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M.Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cyngorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelod Unigol / Individual Member (1)

Y Cyngorwyr/Councillor

Charles W.Jones

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cyngorwyr / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet – Y Gymraeg / Cabinet Member – The Welsh Language

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Ystyried adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

6. POLISI GORFODI COMISIYNYDD Y GYMRAEG (DRAFFT)

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

7. STRWYTHUR YMCHWIL AR GYFER Y PWYLLGOR IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

8. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNGOR 2013/14

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

9. CWYNIION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

PWYLLGOR IAITH, 26.06.14

Yn bresennol: Y Cyngorydd Mair Rowlands (Is-gadeirydd yn cadeirio).

Y Cyngorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Eric Merfyn Jones, Liz Saville Roberts, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai), Gareth Parri (Arweinydd Tîm Opsiynau Tai), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith), Ifan Llewelyn Jones (Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Alan Jones Evans, Gweno Glyn a Dyfrig Jones.

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Gweno Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2014/15.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cyngorydd Eirwyn Williams a'r Cyngorydd Mair Rowlands.

Pleidleisiodd 5 aelod o blaid y Cyngorydd Eirwyn Williams a 5 aelod o blaid y Cyngorydd Mair Rowlands. Nododd y Cyngorydd Eirwyn Williams ei fod yn fodlon tynnu ei enw yn ôl.

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Mair Rowlands yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2014/15.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cyngorydd Siân Gwenllian fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Gosodiadau Tai Cymdeithasol, oherwydd ei bod yn gwasanaethu ar Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2014 fel rhai cywir, yn amodol ar y cywiriadau a nodir isod:-

Eitem 9 – Cwynion Iaith

Cywiro'r cyfeiriad at Lôn Gwydryn, Abersoch i ddarllen Lôn Gwydryn, "Morfa Bychan".

Nodyn ar ddiwedd y cofnodion ynglŷn â'r rhaglen waith

Cywiro'r eitem ddiwethaf ar y rhestr i ddarllen "Newid enwau tai".

Materion yn codi o'r cofnodionEitem 2 – Mater yn codi o gofnodion 15 Ionawr, 2014Eitem 2 – Mater Brys – Ymdrin â Phresgripsiwn Cymraeg

Dosbarthwyd copi o lythyr Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weinidog Cymru dyddiedig 12 Chwefror parthed yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ar bresgripsiwn yng Nghymru oedd yn argymhell camau i Weinidogion Cymru eu cymryd o dan Ran 2, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodwyd bod y Gweinidog Iechyd wedi rhoi addewid y byddai'n ymateb i'r llythyr erbyn diwedd y tymor hwn.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys:-

- Adrodd yn ôl o gyfarfod diwethaf yr Is-grŵp Gweithleoedd a sefydlwyd o dan Hunaniaith;
- Presenoldeb Hunaniaith a Chyngor Gwynedd yn Eisteddfod yr Urdd a digwyddiadau a fynychwyd yn ystod yr wythnos;
- Cyfarfodydd penodol ynglŷn â datblygu'r meddalwedd i dracio datblygiad y Siarter Iaith;
- Cyfarfod anffurfiol gyda Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod y defnydd o'r iaith gan y staff;
- Trafodaethau ynglŷn â phryderon diffyg darpariaeth Gymraeg i gyn-filwyr.

Dosbarthwyd papur i'r aelodau yn sgil cyfarfod o'r Panel Cyflawni Iaith ar 25 Mehefin yn manylu ar y gweithgaredd, y cynnydd hyd yma a'r addewidion i'w cyflawni yn ystod 2014/15 yng nghyswllt Prosiect Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd a Phrosiect Cymunedau yn Hyrwyddo'r Gymraeg. Gan gyfeirio at y gwaith o dracio'r Siarter Iaith, nododd yr Aelod Cabinet, er bod arbrawf penodol yn Ysgol Pen y Bryn, Bethesda wedi dangos cynnydd yn nefnydd y plant o'r Gymraeg dros gyfnod, 'roedd yn hynod siomedig bod cyn lleied o blant y sir yn gwrandao ar y radio ac yn gwylio'r teledu yn Gymraeg a bod y mwyafrif llethol ohonynt yn defnyddio Facebook a Twitter bron yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg. Nododd y byddai'n rhoi diweddariad pellach i'r pwyllgor yn dilyn y Panel Cyflawni Iaith nesaf.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

6. GOSODIADAU TAI CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd - adroddiad a chyflwyniad *PowerPoint* gan yr Uwch Reolwr Tai a'r Arweinydd Tîm Opsiynau Tai ar y Polisi Gosod Tai Cyffredin a Dyraniad Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd. Manylwyd ar y Gofrestr Gosod Tai Cyffredin, y Polisi, y fframwaith cyfreithiol, y gwaith partneriaethol, rôl y Tîm Opsiynau Tai a'r diffiniad o gysylltiad lleol (gan gynnwys ystyriaethau statudol), ffeithiau a ffigurau ynghyd â chyfres o negeseuon i gloi.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- (1) Mynegwyd pryder ei bod yn ymddangos bod pobl o'r tu allan yn gallu cael blaenoriaeth dros bobl leol am dai cymdeithasol yng nghymunedau gwledig y sir.

- 'Roedd y bobl hyn yn gallu dod o ardaloedd caletach yn gymdeithasol ac yn effeithio natur stadau bychain y sir gan herio'r siaradwyr Cymraeg cynhenid.
- (2) Gresynwyd o ddeall nad oedd iaith wedi'i gynnwys fel un o'r nodweddion sydd wedi'u gwarchod gan gyfraith rhag pob math o wahaniaethu dan Gôd Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Osod Tai a Digartrefedd. Eglurwyd bod iaith yn gysylltiedig ag ethnigrwydd, sy'n un o'r nodweddion, ac felly na ellid gwahaniaethu ar sail iaith. Dadleuwyd nad lleiafrif ethnig yw'r Cymry Cymraeg yng Nghymru a phwysleisiwyd bod angen herio'r fframwaith cyfreithiol.
 - (3) Nodwyd bod problemau'n deillio'n aml o gyfnewid tenantiaethau ac eglurwyd bod hyn yn hawl statudol i unrhyw denant cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, yn ddarostyngedig i gydymffurfio â gofynion arbennig sydd wedi'u nodi yn Neddf Tai 1985. Holwyd a oedd o fewn pŵer y Cynulliad i ail-ymweld â'r ddeddfwriaeth yma gan fod y maes tai bellach wedi'i ddatganoli yng Nghymru? Adroddwyd bod Tai yn fater oedd wedi'i ddatganoli ac y byddai modd pwyso am newid. Fodd bynnag, nid oedd y mater yma wedi'i gyfarch o fewn y Ddeddf Tai oedd yn mynd drwy'r broses statudol ar hyn o bryd. 'Roedd y gwasanaeth digartref yn ystyried cyswllt lleol wrth ddarparu gwasanaethau ond 'roedd hawl i unrhyw berson o unrhyw ardal ofyn i gael eu cynnwys ar y gofrestr dai.
 - (4) Mynegwyd pryder ynglŷn â lles y bobl ddieithr hynny sy'n cael eu gosod mewn cymunedau gwledig, ymhell oddi wrth wasanaethau a rhwydweithiau teuluol. Er bod yr ymgeiswyr hyn yn gallu cyrraedd y brig o ran pwyntiau os nad oedd galw lleol am eiddo, 'roedd eu lleoli mewn ardaloedd gwledig yn gallu arwain at densiynau, ac nid oedd y sefyllfa'n ddelfrydol iddynt hwy, heb sôn am y cymunedau. Eglurwyd bod rhaid derbyn a pharchu hawliau'r ymgeisydd i ddewis yr ardaloedd lle hoffent fyw a bod gosodiadau yn fwy tebygol ar gyfer eiddo anodd ei osod neu eiddo lle nad oedd ymgeisydd lleol gyda phwyntiau blaenoriaeth. Fodd bynnag, 'roedd y cymdeithasau tai yn mynd yn fwy rhagweithiol ac yn meithrin perthynas gyda darpar denantiaid cyn eu harwyddo i fyny, gan edrych fwyfwy ar yr ochr gymdeithasol hefyd.
 - (5) Pwysleisiwyd y dylai unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir i ddatblygiad tai cymdeithasol mewn cymuned wledig gynnwys amod 106 yn cyfyngu meddiannaeth y tai hynny i bobl leol.
 - (6) Nodwyd bod yna dai gweigion yn Neiniolen ers amser maith er bod yna nifer o bobl leol ar y rhestr aros a gofynnwyd i'r Tîm Opsiynau Tai roi pwysau ar Gartrefi Cymunedol Gwynedd ('CCG') i symud y broses ymlaen yn gynt i ryddhau yr eiddo. Eglurwyd nad swyddogaeth y Tîm Opsiynau Tai oedd rhoi pwysau ar CCG i reoli eu stoc gan eu bod yn gwmni ac yn gorff annibynnol, ond 'roedd y Tîm yn cydweithio'n agos gyda CCG fel y gellid ymateb yn brydlon unwaith y byddai'r rhestrau aros i law. Hefyd, 'roedd CCG wedi rhoi eglurhad dros gadw tai'n wag ar gyfer gwaith trin, ac 'roedd rhaid derbyn hynny.
 - (7) Holwyd a oedd Nefyn fel cymuned yn ardal drefol ynteu wledig yng nghyswllt y polisi gosod gwledig ac awgrymwyd bod yna drafodaeth i'w chael ynglŷn â hynny.
 - (8) Gan gyfeirio at y '*Localism Act 2011*' sy'n weithredol yn Lloegr, nodwyd bod Lloegr ymhell ar y blaen i Gymru o ran gwarchod cymunedau. Eglurwyd nad oedd y ddeddf hon yn weithredol yng Nghymru ac efallai bod angen deddfwriaeth i wneud i hynny ddigwydd.
 - (9) Nodwyd, er bod yna ganfyddiad bod cymunedau'n cael eu boddi gan bobl o'r tu allan, ei bod yn galonogol deall bod gan 91.41% o'r ceisiadau presennol sydd wedi eu cofrestru gyda'r Tîm Opsiynau Tai gysylltiad lleol â Gwynedd. Serch hynny, 'roedd yr iaith yn edwino yng nghymunedau'r sir ac 'roedd yn amlwg nad oedd y cysylltiad lleol yn ddigon bellach i warchod yr iaith a bod rhaid cael yr amod ieithyddol. Gofynnwyd am arweiniad ynglŷn â sut i herio'r Côt i roi mwy o bwyslais o ran cysylltiad lleol a bod yr iaith Gymraeg yn amod ar faterion cynllunio a thai. Eglurwyd y byddai perswadio'r Cynulliad i ail-ymweld â'r côd yn dipyn o her, ond y gellid ysgrifennu atynt yn nodi sylwadau a phryderon yr aelodau, ac yn codi cwestiynau ynglŷn â'r Côt presennol.

Diolchwyd i'r swyddogion am y cyflwyniad.

PENDERFYNWYD bod swyddogion y Gwasanaeth Tai yn ysgrifennu at y Cynulliad yn nodi sylwadau a phryderon yr aelodau, ac yn galw am:-

- (a) ychwanegu iaith at y rhestr o nodweddion sydd wedi'u gwarchod gan gyfraith rhag pob math o wahaniaethu dan Gôd Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Osod Tai a Digartrefedd.
- (b) gyflwyno ddeddfwriaeth i ymestyn y '*Localism Act*' i fod yn weithredol yng Nghymru.

7. CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD MONITRO 2013-14

Cyflwynwyd – Adroddiad Monitro drafft 2013/14 a gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Gan gyfeirio at y tablau Sgiliau Ieithyddol Staff, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod yna ragor o ffigurau i'w cynnwys yn yr adroddiad o safbwynt y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod 94% o staff yr adran yn siarad Cymraeg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- (1) Bod y broblem ym Meirionnydd, ac yn arbennig yng Nghanolfan Hamdden Dolgellau, yn amlwg iawn o'r adroddiad.
- (2) Bod yr adroddiad yn waelodlin i adeiladu arno. 'Roedd lle i wella mewn rhai ardaloedd, ond 'roedd dwylo'r pwyllgor yn gaeth hyd oni fo'r Safonau Iaith wedi'u cyhoeddi.
- (3) Holwyd a oedd modd teilwrio'r Siarter Iaith ar gyfer Clybiau Ieuenctid.
- (4) Cafwyd sylw ynglŷn â manylion y ffigurau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod). Eglurwyd y byddai yna ffigurau ar gael ar gyfer gwahanol swyddogaethau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol maes o law, ac yn ogystal â'u cyflwyno i Gomisiynydd yr Iaith, byddent hefyd yn cael eu monitro'n barhaol fel rhan o'r strwythur 'Mwy na Geiriau'.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

8. DIWEDDARIAD AR Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn nodi:-

- (1) Bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Adroddiad Safonau, sy'n nodi casgliadau'r Ymchwiliad Safonau ac wedi cynhyrchu dogfen gyngor at sylw Gweinidogion Cymru sy'n crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a grwpiau diddordeb ar y Safonau arfaethedig eu hunain.
- (2) Y rhagwelid y deuai'r rheoliadau i rym ym mis Tachwedd 2014.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

9. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2014-15.

Mynegwyd ymdeimlad o rwystredigaeth nad oedd gan y Pwyllgor iaith unrhyw rym ac nad oedd yna ddilyniant i'r trafodaethau. Mynegwyd dymuniad i'r pwyllgor fod yn fwy rhagweithiol ac arloesol, yn lle derbyn pob dim, gan hybu'r iaith, yn hytrach na cheisio'i hamddiffyn bob tro. Awgrymwyd, yn hytrach na gwrando'n unig ar gyflwyniadau a gofyn cwestiynau, y dylai'r pwyllgor gael trafodaeth a chrynhoi'r negeseuon ar y diwedd, gan ystyried sefydlu is-grŵp i edrych ar y mater mewn mwy o fanylder. Awgrymwyd hefyd y gallai'r pwyllgor wneud mwy o'i gwaith yn gyffredinol ar lefel gweithgor gan ei bod yn anodd mynd dan groen materion mewn pwyllgor llawn. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod angen sicrhau capasiti digonol i wneud y gwaith yn iawn.

Nodwyd bod y materion ar y rhaglen ddrafft yn ymwneud â statws yr iaith yn unig a bod angen rhoi sylw hefyd i'r materion hynny sy'n greiddiol i ddyfodol y Gymraeg, megis tai, cynllunio, yr economi, ac ati. Nid oedd y rhaglen yn cyfeirio chwaith at adrodd yn ôl ar unrhyw fater.

Trafodwyd sefydlu is-grŵp yn ddiymdroi i edrych ar y maes gosod tai cymdeithasol yn sgil derbyn cyflwyniad ar y mater dan eitem 6 uchod, ond awgrymwyd ei bod yn gynamserol i wneud hynny cyn derbyn yr arweiniad cyfreithiol y gofynnwyd amdano a chyn sicrhau'r capasiti i wneud y gwaith. Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn edrych ar y maes hwn hefyd a chynigiwyd bod grŵp o'r pwyllgor hwn yn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau i drafod y mater.

PENDERFYNWYD

(a) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn, gan ychwanegu ati yn ôl yr angen.

23/10/14	29/01/15	23/04/15	Mehfin 2014
Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar yr Ymchwiliad Safonau	Diweddariad ar y Safonau Iaith	Diweddariad ar y Safonau Iaith	Diweddariad ar y Safonau Iaith
Ymateb y Comisiynydd i'n Hadroddiad Monitro Iaith	Defnydd 3ydd Parti o adnoddau'r Cyngor	Diweddariad ar Hunaniaith/ Strategaeth Ieithyddol Gwynedd	Polisi Enwau Tai a Strydoedd
Cymorth Ieithyddol i fusnesau	Cyflwyniad Adrannol	Cyflwyniad Adrannol	Cyflwyniad Adrannol
Cyflwyniad Adrannol	Cwynion Iaith	Cwynion Iaith	Cwynion Iaith
Cwynion iaith			

(b) Gwahodd y Comisiynydd Iaith i roi cyflwyniad i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Iaith yn sgil cyhoeddi'r Safonau Iaith.

(c) Bod y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r Adran Strategol a Gwella oes ganddynt y capasiti i gefnogi ymchwiliadau i feysydd penodol gan is-grwpiau o'r Pwyllgor Iaith.

10. YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn gofyn i'r pwyllgor:-

- (1) gyflwyno eu sylwadau ar gais Mynyddoedd Pawb am gefnogaeth i'w hymgyrch er diogelu enwau lleoedd Cymraeg.
- (2) ystyried cysylltu â threfnwyr yr ymgyrch i ddatgan cefnogaeth y pwyllgor i'r amcanion hynny.

Nodwyd bod y Cyngor weithiau'n defnyddio fersiynau Saesneg o enwau lleoedd, ac eglurwyd, tra bod angen i'r Cyngor gydnabod enwau Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb gyda rhestr y Swyddfa Bost, bod y Cynllun Iaith yn glir mai fersiwn Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor ei hun.

PENDERFYNWYD

- (a) **Cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn er mwyn rhoi cryfder gwleidyddol i'r ymgyrch.**
- (b) **Cysylltu â'r Cynghorau Cymuned i'w hatgoffa ei bod yn bwysig iddynt hwythau roi eu cefnogaeth i'r ymgyrch.**
- (c) **Enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith i fod yn bresennol yng Nghynhadledd nesaf Mynyddoedd Pawb.**

11. ENWAU TAI

Cyflwynwyd – adroddiad llafar y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith. Nododd fod yna 137 achos o newid enwau tai yng Ngwynedd yn 2012, gyda dau yn newid o'r Gymraeg i Saesneg a 9 yn newid o'r Saesneg i'r Gymraeg. Gwelwyd patrwm tebyg yn 2013, gydag 118 achos o newid enwau tai - un yn newid o'r Gymraeg i'r Saesneg ac 13 yn newid o'r Saesneg i'r Gymraeg. Gan hynny, 'roedd y tueddiad fwy at newid o'r Saesneg i'r Gymraeg nag i'r gwrthwyneb, ond 'roedd yn fater i'r Ymgynghoriaeth gadw llygaid arno.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Mynegwyd pryder bod yr un materion yn codi'u pennau dro ar ôl tro a bod pobl yn teimlo nad oes angen iddynt wneud dim mwy nag ymddiheuro. Nid oedd gan y Cyngor ddulliau eraill o sicrhau bod yr iaith yn cael parch teilwng gan y staff a gofynnwyd sut y gallai'r Cyngor weithredu mewn dull rhagweithiol sy'n hybu'r iaith, yn hytrach na gwrando ar ymddiheuriadau bob tro. Cytunwyd i roi unrhyw syniadau ar y rhaglen waith i'w trafod.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.00pm.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 23 2014
TEITL:	POLISI GORFODI COMISIYNYDD Y GYMRAEG (DRAFFT)
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CANFOD A CHASGLU SYLWADAU'R PWYLLGOR IAITH

1. CEFNDIR

- 1.1. Cyflwynir y Polisi drafft i sylw'r Pwyllgor Iaith, gan ofyn am unrhyw sylwadau i'w hanfon at y Comisiynydd. Noder fod y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 15/09/14 hyd at 10/11/14.
- 1.2. Pwrpas y ddogfen yw rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y bydd y Comisiynydd yn mynd ati i arfer ei swyddogaethau rheolaethol dan Ran 5 y Mesur Iaith.
- 1.3. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at gyrrff megis Cyngor Gwynedd bydd raid iddynt gydymffurfio a'r Safonau Iaith.

2. Y DDOGFEN

- 2.1. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r egwyddorion, prosesau a meini prawf arfaethedig mewn perthynas ag ymchwilio i unrhyw gwyn neu honiad o ddiffyg cydymffurfiaeth a'r gofynion statudol .
- 2.2. Mae'n amlinellu sut y gellir dod a chwyn ger bron y Comisiynydd o dan Adran 93 Mesur y Gymraeg, a hefyd sut y gall y Comisiynydd ystyried tystiolaeth o ffynonellau eraill (e.e. tystiolaeth yn codi o'i gwaith arolygu).
- 2.3. Rhoddir sylw'n ogystal i'r broses o gynnal ymchwiliad statudol, ac o'r opsiynau sy'n agored i'r Comisiynydd yn sgil y broses hon: O ganfod dim methiant a pheidio â gweithredu ymhellach hyd i orfodi mesurau'n dilyn canfyddiad o fethiant i gydymffurfio.
- 2.4. O ganfod diffyg cydymffurfiaeth, gall y Comisiynydd weithredu drwy un neu ragor o'r dulliau canlynol:
 - Adfer cydymffurfiaeth (cytundeb gwirfoddol i adfer cydymffurfiaeth)
 - Gorfodi cydymffurfiaeth (camau i orfodi cydymffurfiaeth)
 - Gosod cosb sifil (hyd at £5,000)
- 2.5. Lle ceir methiant i gydymffurfio a cham gorfodi neu gytundeb setlo, mae'r

ddogfen yn amlinellu sut y gall y Comisiynydd wneud cais i lys sirol i orfodi cydymffurfiaeth.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1. Gofynnir i'r Pwyllgor iaith am unrhyw sylwadau ar y ddogfen er mwyn eu cyflwyno i'r Comisiynydd fel rhan o'r broses ymgynghori.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Polisi Gorfodi

Comisiynydd y Gymraeg [Drafft]

Cynnwys

1	Cefndir	1
2	Cyflwyniad	2
3	Egwyddorion rheoleiddio	4
	(i) Cymesur	4
	(ii) Atebol	5
	(iii) Cyson	5
	(iv) Tryloyw	5
	(v) Targeddu	5
4	Cwynion statudol o dan adran 93 Mesur y Gymraeg	6
	- Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd	6
	- Y Comisiynydd yn dilysu'r gŵyn	7
	- Y Comisiynydd yn delio â'r gŵyn	7
5	Tystiolaeth arall o amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon	9
6	Meini prawf y Comisynydd wrth ystyried cynnal ymchwiliad statudol	10
7	Ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon	12
	- Rhoi cyfle i'r person perthnasol ac i achwynydd wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad statudol	12
	- Rhoi hysbysiad tystiolaeth i berson perthnasol neu i unrhyw berson arall	12
	- Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio	13
	- Dirmyg llys	13
	- Penderfynu terfynu ymchwiliad statudol	14
	- Dyfarnu ar ymchwiliad statudol	14
8	Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon	15
9	Methiant i gydymffurfio â safon	20
	(i) Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant	21
	(ii) Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant	21
	(iii) Gosod cosb sifil am y methiant	21
10	Cosb sifil	23
11	Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi neu gytundeb setlo	25
12	Cydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill	27
13	Cofrestr camau gorfodi	28
14	Rhestr termau	29
15	Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd	31

1 Cefndir

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn ddogfen statudol a luniwyd yn unol ag adran 108 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Mesur y Gymraeg]. Dogfen ydyw sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae Comisiynydd y Gymraeg [y Comisiynydd] yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
- 1.2 Prif gynulleidfa darged y polisi yw'r personau perthnasol hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad [safonau] mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r cyhoedd, ac i bersonau¹ sy'n dymuno cwyno wrth y Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad honedig person perthnasol.
- 1.3 Bydd y Comisiynydd yn adolygu gweithrediad y polisi hwn yn barhaus, yn ei gyhoeddi ar y wefan ac yn ei arddangos yn holl swyddfeydd a safleoedd y Comisiynydd.
- 1.4 Gellir cael rhagor o wybodaeth am swyddogaethau eraill y Comisiynydd ar y wefan.

¹ Mae person yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn neu endid sydd â phersonoliaeth gyfreithiol.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn *bersonau perthnasol*. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:
- o cyflenwi gwasanaethau;
 - o llunio polisi;
 - o gweithredu;
 - o hybu;
 - o cadw cofnodion.
- 2.2 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Cysyllta hyn â'r ddwy egwyddor sy'n sail i waith y Comisiynydd sef:
- o ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
 - o dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 2.3 Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Fesur y Gymraeg yn manylu ar y safonau penodol y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ynghyd â'r diwrnodau gosod² ar gyfer y safonau hynny. Bydd copïau o'r hysbysiadau cydymffurfio hynny sydd mewn grym ar wefan y Comisiynydd.
- 2.4 Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol iddo ef mewn grym, bydd yn ofynnol i berson perthnasol gydymffurfio â safon.
- 2.5 Mewn perthynas â'r uchod, mae gan y Comisiynydd swyddogaethau rheoleiddiol statudol o dan Fesur y Gymraeg er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall hynny gynnwys safon y mae'n ofynnol i'r person perthnasol gydymffurfio â hi, cam gorfodi³ a osodwyd arno neu gytundeb setlo yr ymrwymwyd iddo. Mae'r polisi hwn yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- 2.6 Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- o llunio dogfen polisi gorfodi;
 - o ystyried cynnal ymchwiliadau statudol i amheuon o fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio;
 - o delio â chwynion am ymddygiad honedig personau perthnasol;
 - o cynnal ymchwiliadau statudol i amheuon o fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio;

² Y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon, neu â'r safon mewn modd penodol.


³ Camau gorfodi yw'r enw a roddir ar y camau a nodir yng nghymal 8.5(ii) y polisi hwn.

- defnyddio pwerau er mwyn atal methiannau i gydymffurfio rhag parhau neu gael eu hailadrodd;
- gosod cosbau sifil am fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio;
- gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
- cydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n deillio o apelau a cheisiadau am adolygiadau a wnaed i Dribiwnlys y Gymraeg [y Tribiwnlys]; a
- chreu a chynnal cofrestr camau gorfodi.

2.7 Mae prosesau statudol i'w dilyn wrth i'r Comisiynydd fynd ati i arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol. Manyla'r polisi hwn ar yr agweddau sydd ynghlwm â'r prosesau hynny.

3 Egwyddorion rheoleiddio

- 3.1 Mae'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i rai rheoleiddwyr⁴ roi sylw i egwyddorion rheoleiddio da wrth arfer swyddogaethau rheoleiddiol penodol.
- 3.2 Yn unol ag adran 23 y ddeddf a nodir uchod, lluniwyd Cod y Rheoleiddwyr a daeth i rym ar 6 Ebrill 2014 gan ddisodli Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr a'r Concordat Gorfodi blaenorol. Mae'r cod yn darparu fframwaith clir ar gyfer y modd y dylai rheoleiddwyr ymgysylltu â'r sawl y maent yn eu rheoleiddio. Nid oes dyletswydd statudol ar y Comisiynydd i ddilyn y cod, ond rhoddwyd sylw llawn iddo wrth lunio'r polisi hwn yn unol ag argymhelliad y Swyddfa Rheoliadau Gwell⁵ a Llywodraeth Cymru⁶.
- 3.3 Bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd cadarn ond teg gan ddefnyddio'r pwerau mwyaf priodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a sicrhau cydymffurfiaeth. Yn unol â'r uchod, bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol drwy ddilyn y pum egwyddor a nodir isod:



(i) Cymesur

- 3.4 Wrth ystyried amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn gymesur wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad statudol ai peidio. Gyda hyn mewn golwg, bydd y Comisiynydd yn ystyried ffeithiau pob achos yn unigol gan roi sylw i feini prawf penodol wrth ddod i benderfyniad.
- 3.5 Wrth benderfynu pa gamau dilynol i'w cymryd yn sgil dyfarnu bod methiant i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn ystyried yr hyn sy'n gymesur er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.
- 3.6 Os canfyddir bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw gam gorfodi neu gytundeb setlo, bydd y Comisiynydd yn dwysáu yr ymateb gan gymryd camau pellach yn erbyn y person perthnasol.

⁴ Mae gan y Comisiynydd statws rheoleiddiwr perthnasol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

⁵ Yn eu dogfen 'Regulators' Code: Frequently Asked Questions', mae'r Swyddfa Rheoliadau Gwell yn nodi "We recommend that regulators acting outside the statutory scope of the Regulators' Code should adopt it on a voluntary basis".

⁶ Yn ei dogfen 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru', mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod "yn disgwyl i gyrff yng Nghymru, wrth iddynt wneud gwaith gorfodi mewn perthynas â rheoleiddio, weithredu'n unol â'r egwyddorion" hyn.

(ii) Atebol

- 3.7 Bydd y Comisiynydd yn atebol am y penderfyniadau a wneir drwy dderbyn sylwadau ac adborth am y gwaith gorfodi a'r ffordd y defnyddir y pwerau. Mae gan y Comisiynydd drefn gwyno y gall person ei defnyddio er mwyn mynegi unrhyw bryderon ynghylch gwaith a phenderfyniadau'r Comisiynydd⁷.
- 3.8 Mae Mesur y Gymraeg yn darparu mecanwaith sy'n rhoi hawl i bersonau perthnasol ac achwynwyr apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn rhai o benderfyniadau'r Comisiynydd. At hynny, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, gall achwynwyr wneud cais iddo adolygu penderfyniad y Comisiynydd mewn rhai achosion. Manylir ar yr hawliau hynny o dan yr adrannau perthnasol yn y polisi hwn.

(iii) Cyson

- 3.9 Bydd y Comisiynydd yn gyson wrth weithredu'r polisi gorfodi ac wrth wneud penderfyniadau yn ei gylch. I'r perwyl hwn, nid yw cysondeb yn golygu y bydd y Comisiynydd yn cymryd yr un camau gyda'r un math o achos bob tro. Yn hytrach, golyga y bydd y Comisiynydd yn gweithredu dull cyson wrth ystyried ffeithiau pob achos yn unigol ac wrth benderfynu ar ymateb priodol. Drwy weithredu yn y modd hwnnw, bydd yn sicrhau tegwch, gwrthrychedd ac amhleidioldeb wrth ymdrin â gwahanol bartïon.

(iv) Tryloyw

- 3.10 Bydd y Comisiynydd yn dryloyw wrth ymdrin â'i swyddogaethau rheoleiddiol gan sicrhau bod y cyhoedd a phersonau perthnasol yn deall sut yr arferir y swyddogaethau hynny. Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o fanylion yr holl ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd, gan gynnwys unrhyw gamau dilynol a gymerwyd, drwy gynnal cofrestr camau gorfodi.

(v) Targedu

- 3.11 Bydd y Comisiynydd yn targedu y gwaith rheoleiddio drwy weithredu ar sail meini prawf penodol, gan gynnwys risg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried rhannu adnoddau gydag eraill lle bo modd, a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu.
- 3.12 Gall y Comisiynydd gydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill wrth gynnal ymchwiliad statudol mewn rhai achosion⁸ neu ddefnyddio partïon allanol i gasglu tystiolaeth neu gymryd rhai camau ar ran y Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn ystyried amgylchiadau'r achos unigol er mwyn dod i benderfyniad ar y dull mwyaf addas o weithredu.

⁷ Gweler adran 15 y polisi hwn.

⁸ Gweler adran 12 y polisi hwn.

4 Cwynion statudol o dan adran 93 Mesur y Gymraeg

4.1 Un o swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiynydd yw delio â chwynion o dan adran 93 Mesur y Gymraeg. Bydd ffocws y Comisiynydd wrth ddelio â chwynion ar geisio cael datrysiad boddhaol i'r achwynydd, boed hynny yn sgil cynnal ymchwiliad statudol neu drwy ddulliau eraill. Lle bydd yn canfod methiant i gydymffurfio, bydd hefyd yn ystyried a oes angen cymryd camau dilynol er mwyn atal y methiant hwnnw rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd

4.2 Gall person gwyno wrth y Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad person perthnasol mewn cysylltiad â safon y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi.

4.3 Rhaid i'r achwynydd fod yn berson y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol, neu'n berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.

4.4 Bydd y Comisiynydd yn derbyn cwynion ysgrifenedig drwy'r post, e-bost a thrwy'r wefan. Ni fydd y Comisiynydd yn derbyn cwynion drwy rwydweithiau cymdeithasol ond, er mwyn sicrhau hygyrchedd, bydd modd i'r sawl na all gyflwyno cwyn yn ysgrifenedig oherwydd eu hamgylchiadau personol, gysylltu â'r Comisiynydd dros y ffôn, neu unrhyw gyfrwng addas arall i egluro hynny ac i drafod eu cwyn. Bydd y Comisiynydd yn gwneud darpariaeth resymol gan ddarparu cymorth iddynt gyflwyno cwyn drwy ddull arall.

4.5 Mae'r Comisiynydd yn cymhell achwynwyr i gwyno wrth y person perthnasol yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi cyfle iddo ymateb, a chynnig datrysiad i'r gŵyn, lle bo methiant wedi'i gyflawni.

4.6 Mae disgwyl i achwynydd gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd o fewn blwyddyn ar ôl iddo ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig. Fel arall, os cyflwynir cwyn tu hwnt i'r cyfnod o flwyddyn, bydd y Comisiynydd ond yn ei hystyried os yw o'r farn fod hynny'n briodol. Gall sefyllfaoedd felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, sefyllfaoedd fel y canlynol:

- o ymddygiad honedig yn parhau;
- o methiant difrifol i gydymffurfio yn cael ei amlygu;
- o sylw cyhoeddus sylweddol yn yr achos; neu
- o achwynydd â rheswm dilys dros beidio â chyflwyno'r gŵyn ynghynt.

4.7 Rhaid i achwynydd gynnwys manylion digonol ynghylch y canlynol yn ei gŵyn:

- o pwy yw'r person perthnasol y cwynir amdano;
- o beth yw'r ymddygiad honedig;
- o sut mae'r ymddygiad wedi effeithio ar yr achwynydd; ac
- o enw a manylion cyswllt yr achwynydd.

4.8 Gall methiant i gynnwys y manylion hyn olygu na all y Comisiynydd ystyried y gŵyn ymhellach.

Y Comisiynydd yn dilysu'r gŵyn

- 4.9 Bydd y Comisiynydd yn cydnabod derbyn pob cwyn ysgrifenedig yn ymwneud ag ymddygiad person perthnasol a dderbynnir. Wrth gydnabod, hysbysir yr achwynydd a yw'r gŵyn yn un ddilys o dan adran 93 ai peidio.
- 4.10 Os cesglir nad yw'r gŵyn yn un ddilys, a hynny am nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yng nghymalau 4.2 – 4.8 y polisi hwn, bydd y Comisiynydd yn egluro sut gall yr achwynydd gyflwyno cwyn ddilys, os yw hynny'n briodol.
- 4.11 Os cesglir bod cŵyn yn un ddilys, yna mae dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r cwestiwn a yw ymddygiad honedig y person perthnasol yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon. Dim ond os yw'r Comisiynydd n amau bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon y caiff ymchwiliad statudol ei gynnal i'r perwyl hwn. Mae rhai achosion wedi'u heithrio o'r ddyletswydd hon sef:
- o pan fo'r gŵyn wedi'i gwneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig;
 - o os yw'r Comisiynydd o'r farn fod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, neu'n un sydd eisoes wedi'i gwneud sawl gwaith; neu
 - o os tynnir y gŵyn yn ôl.
- 4.12 Os yw'r Comisiynydd o'r farn fod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, yn un sydd eisoes wedi'i gwneud sawl gwaith, neu os tynnir y gŵyn yn ôl, bydd y Comisiynydd yn penderfynu cau'r gŵyn.
- 4.13 Gall nifer o amgylchiadau arwain y Comisiynydd i gasglu bod cwyn yn un wacsaw neu flinderus. Gall hynny gynnwys amgylchiad lle bo'r achwynydd yn cyflwyno cwyn ddisylwedd neu'n newid sylwedd y gŵyn, codi materion amherthnasol, gosod gofynion afresymol ar y Comisiynydd neu'n cysylltu â'r Comisiynydd mewn modd a ystyrir yn afresymol.
- 4.14 Mewn amgylchiadau fel yr amlinellir yng nghymalau 4.10 a 4.12, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'i phenderfyniad a'i rhesymau dros hynny, ac yn ei hysbysu o'i hawl, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, i wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw.
- 4.15 Noder, fodd bynnag, fod gan y Comisiynydd hawl i ystyried cynnal ymchwiliad statudol o'i gwirfodd yn yr amgylchiadau canlynol:
- o yn absenoldeb cwyn am yr ymddygiad honedig (gweler adran 5 y polisi hwn);
 - o os nad yw cwyn yn un ddilys; neu
 - o os yw'r amgylchiadau a amlinellir yng nghymal 4.11 uchod yn gymwys.

Y Comisiynydd yn delio â'r gŵyn

- 4.16 Yn y mwyafrif o achosion, bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r person perthnasol, gan roi cyfle iddo ymateb i honiadau'r gŵyn. Gwneir hynny er mwyn derbyn tystiolaeth bellach am yr ymddygiad honedig. Bydd y Comisiynydd yn disgwyl derbyn ymateb, eglurhad a, lle bo methiant wedi'i gyflawni, datrysiaid i'r gŵyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn agored i dderbyn cais am estyniad rhesymol (o ddim mwy na 10 diwrnod gwaith pellach) gan berson perthnasol, os oes rhesymau dilys dros hynny.

- 4.17 Er hynny, cedwir hawl y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r gŵyn yn syth os yw amgylchiadau unigol y gŵyn yn gofyn am hynny. Gall amgylchiadau felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, amgylchiadau fel y canlynol:
- cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio;
 - cwyn yn amlygu'r angen am gamau gorfodi;
 - cwyn yn gofyn am weithredu brys; neu
 - gŵyn y mae'r achwynydd eisoes wedi'i chyfeirio at y person perthnasol.
- 4.18 Yn absenoldeb unrhyw ymateb gan y person perthnasol o fewn 10 diwrnod gwaith, neu o fewn cyfnod yr estyniad, lle caniateir hynny, bydd y Comisiynydd yn mynd ati i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r gŵyn.
- 4.19 Os bydd y Comisiynydd yn derbyn ymateb gan y person perthnasol, mae sawl canlyniad posibl. Gall y person perthnasol wrthod yr honiad o fethiant. Oni chyflwynir tystiolaeth ddigonol sy'n cefnogi'r safbwynt hwnnw, boed hynny yn rhan o'i ymateb neu drwy ymholiadau pellach gan y Comisiynydd, bydd y Comisiynydd yn mynd ati i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r gŵyn. Lle bydd y dystiolaeth yn golygu nad oes gan y Comisiynydd amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad statudol.
- 4.20 Mewn amgylchiadau eraill, gall y person perthnasol gydnabod bod methiant wedi'i gyflawni, gan gynnig eglurhad a datrysiaid i'r gŵyn. Lle bydd yr ymateb hwnnw'n bodloni'r Comisiynydd, a hynny'n unol â'r meini prawf a amlinellir yn adran 6, bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad statudol i'r methiant.
- 4.21 Bydd y Comisiynydd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r achwynydd a'r person perthnasol ac yn darparu cyswllt o fewn ei swyddfa y gallant gysylltu ag ef er mwyn trafod y gŵyn.
- 4.22 Y Comisiynydd fydd yn penderfynu a yw am gynnal ymchwiliad statudol ai peidio. Wrth ddod i benderfyniad, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i'r meini prawf a amlinellir yn adran 6 y polisi hwn. Ar ôl dod i benderfyniad, bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r achwynydd a'r person perthnasol, lle bo'n berthnasol. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad statudol, bydd yn egluro i'r achwynydd ei rhesymau dros beidio.
- 4.23 Os bydd yr achwynydd yn anfodlon â phenderfyniad y Comisiynydd yn y cyswllt hwn, bydd modd iddo, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw. Bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'r hawl honno pan fo'n berthnasol.

5 Tystiolaeth arall o amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

- 5.1 Yn ogystal â thrwy dderbyn cwynion statudol, gall amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon ddod i sylw'r Comisiynydd drwy ffynonellau tystiolaeth eraill.
- 5.2 Un o'r ffynonellau hynny fydd y gwaith arolygu a gynhelir gan y Comisiynydd. Bwriad y gwaith arolygu hwn fydd gwirio cydymffurfiaeth personau perthnasol â'r safonau a osodwyd arnynt.
- 5.3 Y tu hwnt i'r gwaith arolygu, gall amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon ddod i'r amlwg drwy ffynonellau eraill. Gall y ffynonellau hynny gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r canlynol:
- o gwybodaeth y bydd y Comisiynydd yn ei chanfod wrth weithredu ei swyddogaethau eraill o dan Fesur y Gymraeg;
 - o gwybodaeth sy'n amlygu methiant person perthnasol i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer⁹ a ddyroddir gan y Comisiynydd;
 - o gwybodaeth sy'n ymddangos ar y cyfryngau; neu
 - o wybodaeth gan y cyhoedd neu unrhyw berson arall.
- 5.4 Pan fydd amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon yn cael ei amlygu drwy ffynonellau fel yr uchod, bydd y Comisiynydd yn dilyn yr un camau ag a amlinellir yng nghymalau 4.16 – 4.22 y polisi hwn, gan eithrio unrhyw gyfeiriadau sydd at achwynydd a gan ddarllen unrhyw gyfeiriad at 'gŵyn' fel cyfeiriad at 'achos'.

⁹ Er mai pwrpas codau ymarfer yw darparu canllawiau ymarferol ynghylch gofynion y safonau, gall y Comisiynydd ddibynnu ar fethiant person perthnasol i gydymffurfio â chynnwys cod ymarfer fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau methiant i gydymffurfio â safon benodol.

6 Meini prawf y Comisiynydd wrth ystyried cynnal ymchwiliad statudol

6.1 Bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i'r meini prawf canlynol wrth ddod i benderfyniad ar gynnal ymchwiliad statudol ai peidio.

Traweffaith

- A yw'r methiant a amheuir yn debygol o/neu wedi effeithio ar nifer fawr o bobl, neu a yw'r Comisiynydd wedi derbyn nifer o gwynion am yr ymddygiad honedig?
- A yw'r achos yn amlygu amheuaeth o fethiant difrifol neu'n achos sydd angen gweithredu brys – e.e. achos lle gallai'r methiant a amheuir effeithio ar lesiant unigolyn, neu achos sy'n dilyn amserlen gaeth sy'n golygu bod rhaid ymateb yn gadarn ac ar frys?
- A yw'n achos strategol bwysig – e.e. yn amlygu amheuaeth o fethiant mewn penderfyniad polisi a allai gael effaith andwyol hirdymor ar ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg?

Tebygolrwydd/Risg

- A yw'r methiant a amheuir neu fethiant tebyg wedi digwydd o'r blaen gan yr un person perthnasol?
- A yw'r methiant a amheuir yn debygol o ddigwydd eto?
- A yw'r person perthnasol wedi rhoi mesurau digonol yn eu lle er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, i'r graddau y mae hynny'n bosibl?
- A yw'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd arno yn dilyn ymchwiliad statudol blaenorol?

Tegwch a chymesuredd

- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol yn ymateb cymesur?
- Beth yw hanes cydymffurfiaeth y person perthnasol a natur/difrifoldeb y methiant a amheuir?
- Pryd daeth y diwrnod gosod i rym?
- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol a'r effaith debygol yn cyfiawnhau'r gost defnydd adnoddau i'r Comisiynydd?
- A oes dulliau mwy effeithiol o sicrhau cydymffurfiaeth, gan atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd?

Gweinyddiaeth

- A yw ymateb y person perthnasol i'r achos yn annerbyniol neu'n anfoddhaol?
- A yw'r person perthnasol yn amharod i gydweithio neu heb ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth bellach?
- A oes tystiolaeth/gwybodaeth gan reoleiddwyr neu eraill sy'n amlygu methiannau pellach, neu'n cadarnhau'r methiant a amheuir?

Cyfiawnder

- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr y Gymraeg?
- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol yn fodd i'r Comisiynydd sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni, i'r graddau y mae hynny'n bosibl?

Gwarchodaeth y gyfraith

- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol yn cynorthwyo'r Comisiynydd i sicrhau'r newid cadarnhaol mwyaf effeithiol a pharhaol?

Amcanion rheoleiddiol y Comisiynydd

- A fyddai cynnal ymchwiliad statudol yn helpu i gyflawni amcanion rheoleiddiol y Comisiynydd?

- 6.2 Nid yw'r meini prawf a amlinellir uchod yn cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i ystyried materion eraill wrth ddod i benderfyniad. Mae amgylchiadau pob achos yn wahanol a gallai ystyriaethau eraill fod yn berthnasol mewn rhai achosion.
- 6.3 Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid yw unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

7 Ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

- 7.1 Wedi i'r Comisiynydd benderfynu bod cynnal ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon yn briodol, boed hynny yn sgil derbyn cwyn o dan adran 93 neu drwy unrhyw ffynhonnell arall, bydd yn mynd ati i baratoi cylch gorchwyl.
- 7.2 Bydd y cylch gorchwyl yn pennu'r person perthnasol yr ymchwilir iddo a'r methiant a amheuir. Gall y cylch gorchwyl hwnnw gynnwys mwy nag un amheuaeth o fethiant, lle bo hynny'n berthnasol.
- 7.3 Rhoddir cyfle rhesymol i'r person perthnasol ac i achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, wneud sylwadau ar y cylch gorchwyl arfaethedig. Bydd y Comisiynydd yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir cyn cyhoeddi'r cylch gorchwyl terfynol, gan hysbysu'r personau hynny ohono.

Rhoi cyfle i'r person perthnasol ac i achwynydd wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad statudol

- 7.4 Wrth gynnal ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle rhesymol i'r partïon a grybwyllir yng nghymal 7.3 uchod gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r ymchwiliad. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r partïon hyn am y trefniadau. Caiff y trefniadau gynnwys cyflwyno sylwadau ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- 7.5 Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir gan y person perthnasol neu gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran y person perthnasol hwnnw. Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried sylwadau a wneir gan achwynydd os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu gwrthod ystyried sylwadau achwynydd, caiff ei hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Rhoi hysbysiad tystiolaeth i berson perthnasol neu unrhyw berson arall

- 7.6 Gall hysbysiad tystiolaeth gynnwys gofyniad i berson perthnasol neu unrhyw berson arall wneud un neu ragor o'r canlynol:
 - o darparu gwybodaeth sy'n ei feddiant;
 - o cyflwyno dogfennau sy'n ei feddiant; neu
 - o roi tystiolaeth lafar.
- 7.7 Ni fydd hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu gwybodaeth y gwaherddir iddo'i datgelu yn rhinwedd deddfwriaeth arall. Yn yr un modd, ni fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud unrhyw beth na allai gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.
- 7.8 Rhaid i berson ddiystyru hysbysiad tystiolaeth lle bo'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth. Manylir ar yr union amgylchiadau hynny yn Rhan 2, Atodlen 10 Mesur y Gymraeg. Mewn amgylchiadau felly, rhaid i'r person hysbysu'r Comisiynydd ei fod yn diystyru'r hysbysiad tystiolaeth.
- 7.9 Gall person wneud cais i'r Tribiwnlys i ddileu'r hysbysiad tystiolaeth a roddir iddo gan y Comisiynydd ar y sail bod gofyniad a osodir ynddo:

- o yn ddiangen o ystyried pwrpas yr ymchwiliad, neu
- o yn afresymol neu'n anghymesur mewn modd arall.

- 7.10 Gall y Comisiynydd, os yw o'r farn fod person sydd wedi derbyn hysbysiad tystiolaeth wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â hysbysiad tystiolaeth heb esgus rhesymol, wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth.
- 7.11 Caiff y Comisiynydd, os gwêl yn dda, dalu i berson sydd wedi cydymffurfio â hysbysiad tystiolaeth a roddir iddo:
- o symiau mewn cysylltiad â threuliau a dynnwyd yn briodol gan y person a
 - o lwfansau yn iawndal am i'r person golli amser.
- 7.12 Mae symiau a delir mewn cysylltiad â threuliau wedi'u cyfyngu i'r gwir gostau ynghlwm â darparu gwybodaeth, cyflwyno dogfennau neu roi tystiolaeth lafar. Gall hynny gynnwys unrhyw gostau argraffu, copïo, postio, ffonio, neu deithio.
- 7.13 Mae lwfansau a delir yn iawndal am i'r person golli amser, wedi'u cyfyngu i £25 yr awr am amser y person wrth iddo ganfod a dyfynnu neu ddarparu'r wybodaeth, y ddogfen neu'r dystiolaeth berthnasol.
- 7.14 Bydd y Comisiynydd ond yn talu'r lwfans yn iawndal am i'r person golli amser pan fo'r gost o gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth yn fwy na £450. (18 awr: £450 / £25) Pan fo'r gost o gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth yn llai na £450, yr unig gostau y gellir eu hawlio yw'r symiau mewn cysylltiad â threuliau.
- 7.15 Rhaid i'r person wneud cais i'r Comisiynydd os ydyw'n dymuno hawlio unrhyw gostau i'r perwyl hwn. Rhoddir rhagor o fanylion ynghylch sut i wneud cais o'r fath wrth gyflwyno'r hysbysiad tystiolaeth i'r person.

Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio

- 7.16 Mae gan y Comisiynydd, neu unrhyw berson a awdurdodir gan y Comisiynydd, y pŵer i fynd i mewn i fangre sydd o dan reolaeth person perthnasol yr ymchwiliad iddo. Rhaid bod archwilio'r fangre yn angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad yn nhyb y Comisiynydd neu'r person awdurdodedig. Er hynny, nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i annedd.
- 7.17 Nid oes rhaid i'r Comisiynydd wneud apwyntiad a gall fynd i mewn heb roi rhybudd, a hynny ar adeg resymol. Er hynny, bydd y Comisiynydd yn ceisio rhoi rybudd i unrhyw berson perthnasol, lle bo'n rhesymol gwneud hynny.

Dirmyg llys

- 7.18 Os yw person wedi cyflawni unrhyw weithred a fyddai yn ddirmyg llys pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, fe all y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.
- 7.19 Gall yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac, os caiff ei fodloni bod casgliadau'r Comisiynydd yn gywir, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

7.20 Mae'r pŵer hwn yn ymestyn hefyd i achos lle bo person, heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro'r Comisiynydd rhag cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

Penderfynu terfynu ymchwiliad statudol

7.21 Gall y Comisiynydd benderfynu terfynu ymchwiliad statudol ar unrhyw adeg. Gall y rhesymau dros benderfynu terfynu ymchwiliad statudol gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, amgylchiadau fel y canlynol:

- o yr ymchwiliad yn amlygu defnydd anghymesur o adnoddau'r Comisiynydd;
- o tystiolaeth fod achwynydd wedi cyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth anwir ac wedi gwneud hynny mewn modd anonest;
- o yr ymchwiliad yn amlygu yn fuan nad yw'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio ac felly dim cyfiawnhad dros ddefnyddio adnoddau wrth barhau â'r ymchwiliad;
- o diddordeb cyhoeddus dros derfynu'r ymchwiliad; neu
- o y person perthnasol wedi'i ddiddymu.

7.22 Ar adegau pan fydd yn penderfynu terfynu ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r partïon hynny a nodir yng nghymal 7.3 uchod cyn gynted â phosibl wedi i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, ynghyd â'r rhesymau dros wneud hynny. Os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, fe hysbysir yr achwynydd o'i hawl, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, i wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Dyfarnu ar ymchwiliad statudol

7.23 Cyn dyfarnu'n derfynol ar ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle i'r partïon a grybwyllir yng nghymal 7.3 uchod wneud sylwadau ynghylch unrhyw gynigion sydd ynghlwm â'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi. Bydd modd i'r partïon hynny wneud sylwadau, o fewn cyfnod o 28 diwrnod. Wedi iddi roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wnaed, bydd y Comisiynydd yn rhoi copïau terfynol o'r hysbysiad penderfynu a'r adroddiad ar yr ymchwiliad i'r partïon.

7.24 Bydd modd i'r partïon hynny wneud sylwadau ynghylch y cynigion canlynol:

- o hysbysiad o'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi;
- o drafft o adroddiad arfaethedig yr ymchwiliad statudol.

7.25 Bydd modd i'r person perthnasol hefyd wneud sylwadau ynghylch y cynigion canlynol:

- o hysbysiad yn nodi a yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach ai peidio, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gwneud hynny;
- o os yw'n bwriadu gweithredu ymhellach, hysbysiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gweithredu felly; a
- o chopïau drafft o'r hysbysiad penderfynu y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi.

8 Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

- 8.1 Wedi cynnal ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu'n derfynol.
- 8.2 Eglurir isod y gwahanol gamau y gall y Comisiynydd eu cymryd yn ddibynnol ar y math o ddyfarniad a bennir. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r person perthnasol a'r achwynydd (os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93) am ei dyfarniad drwy gyflwyno hysbysiad penderfynu iddynt.

Dim methiant i gydymffurfio â safon

- 8.3 Lle dyfarnir nad yw'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd wneud y canlynol:
- (i) peidio â gweithredu ymhellach; neu
 - (ii) rhoi argymhellion a/neu gyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall.
- 8.4 Os yw'r ymchwiliad statudol a arweiniodd at y dyfarniad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, gall yr achwynydd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad ar y sail fod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon. Rhaid i apel gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu¹⁰. Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno hysbysiad penderfynu i'r achwynydd. Mewn apel o'r fath, gall y person perthnasol wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

Methiant i gydymffurfio â safon

- 8.5 Lle dyfarnir bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd wneud y canlynol:
- (i) peidio â gweithredu ymhellach; neu
 - (ii) un neu fwy o'r canlynol:
 - o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd
 - o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd
 - o rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon
 - o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safon
 - o gosod cosb sifil ar y person perthnasol; neu
 - (iii) un neu fwy o'r canlynol:
 - o rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
 - o rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
 - o ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.

¹⁰ Caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan yr achwynydd, ganiatáu i apel gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 99(4) Mesur y Gymraeg.

- 8.6 Lle dyfarna'r Comisiynydd fod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, fe all y person perthnasol hwnnw apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad ar y sail na fethodd â chydymffurfio â safon. Rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu¹¹. Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno'r hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol. Mewn apêl o'r fath, ac os yw'r ymchwiliad statudol a arweiniodd at y dyfarniad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, fe all yr achwynydd wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.
- 8.7 Os gosodir unrhyw un neu ragor o'r camau a nodir yng nghymal 8.5(ii) uchod ar y person perthnasol, fe all y person perthnasol apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y camau hynny ar y sail eu bod yn afresymol neu'n anghymesur. Yn yr un modd, rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu¹². Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol.

Eglurhad o'r pwerau sydd ar gael i'r Comisiynydd

Peidio â gweithredu ymhellach

- 8.8 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach, ni fydd yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau pellach. Serch hynny, bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon yn parhau.

Rhoi argymhellion a/neu gyngor

- 8.9 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu rhoi argymhellion a/neu gyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio, bydd yn gwneud hynny gyda'r bwriad o roi arweiniad ynghylch sut i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Lle dyfarnir na fu methiant i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn rhoi argymhellion a/neu gyngor i berson perthnasol neu i unrhyw berson arall at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd

- 8.10 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol iddo'i wneud. Bydd yr hysbysiad penderfynu hefyd yn cynnwys manylion ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r drafft cyntaf o'r cynllun i sylw'r Comisiynydd, ynghyd â'r canlyniadau os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.
- 8.11 Oni fydd y cynllun drafft cyntaf a ddaw i sylw'r Comisiynydd yn ddigonol at ddibenion atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad i'r person perthnasol i'r perwyl hwnnw ac yn ei wneud yn ofynnol iddo roi drafft diwygiedig i'r Comisiynydd o fewn amser penodedig. Gall y Comisiynydd hefyd wneud argymhellion ynghylch cynnwys y drafft diwygiedig hwnnw.

¹¹ Caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan y person perthnasol, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 95(6) Mesur y Gymraeg.

¹² Eto, caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan y person perthnasol, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 95(6) Mesur y Gymraeg.

- 8.12 Wrth ystyried a yw cynllun gweithredu drafft yn ddigonol, gall y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i unrhyw berson a/neu fynd i mewn i fangre'r person perthnasol fel y gall wneud mewn perthynas ag ymchwiliad statudol fel y nodir yng nghymalau 7.6 – 7.17 y polisi hwn.
- 8.13 Gall y Comisiynydd hefyd wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cynllun drafft cyntaf neu gynllun drafft diwygiedig i'r Comisiynydd erbyn amser a bennir yn y gorchymyn. Mewn perthynas â chynllun drafft diwygiedig, gall y gorchymyn hefyd gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch cynnwys y cynllun.
- 8.14 Daw cynllun gweithredu i rym naill ai:
- o ar ddiwedd cyfnod o chwe wythnos yn dechrau ar y dyddiad y rhoddir y drafft cyntaf neu ddrafft diwygiedig i'r Comisiynydd, os daw'r cyfnod hwnnw i ben heb i'r Comisiynydd roi hysbysiad i'r person perthnasol fel y nodir yng nghymal 8.11 uchod neu heb i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol fel y nodir yng nghymal 8.13 uchod; neu
 - o ar yr adeg pryd y bydd llys sirol yn gwrthod gwneud gorchymyn fel a nodir yng nghymal 8.13 uchod mewn perthynas â chynllun drafft diwygiedig.

Gofyniad i gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd

- 8.15 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol iddo'i wneud a'r canlyniadau os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Bydd y camau penodol yn dod yn effeithiol ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl ddod i ben.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant

- 8.16 Pan fydd yn penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd benderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor o'r canlynol:
- o datganiad bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon; neu
 - o adroddiad ar yr ymchwiliad statudol.
- 8.17 Yn yr un modd, pan fydd y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio, gall ei gwneud yn ofynnol iddo roi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor o'r uchod neu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â methiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon.
- 8.18 Bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd i'w wneud a/neu yr hyn y mae angen i'r person perthnasol ei wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd, a'r canlyniadau os nad yw'r person perthnasol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Bydd y ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd yn dod yn effeithiol ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl ddod i ben.

Cosbau sifil

- 8.19 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu gosod cosb sifil ar y person perthnasol, yr uchafswm fydd £5,000. Noder, fodd bynnag, fod modd i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi swm gwahanol i'r uchafswm hwn.
- 8.20 Bydd yr holl gosbau sifil a ddaw i law yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru¹³.
- 8.21 Mewn perthynas â chosb sifil, bydd yr hysbysiad penderfynu yn cynnwys y manylion canlynol:
- o swm y gosb sifil;
 - o sut y caniateir i'r gosb sifil gael ei thalu;
 - o y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu'r gosb sifil;
 - o y canlyniad os na chaiff y gosb ei thalu; a
 - o hawl y person perthnasol i apelio yn erbyn y gosb sifil.
- 8.22 Gweler adran 10 y polisi hwn am ragor o fanylion ynghylch penderfyniadau'r Comisiynydd mewn cyswllt â chosbau sifil.

Cytundebau Setlo

- 8.23 Wrth ymrwymo mewn cytundeb setlo bydd y Comisiynydd yn cytuno i beidio â chymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r methiant tra bo'r person perthnasol yn cytuno i beidio â methu â chydymffurfio ag un neu ragor o safonau; gweithredu mewn ffordd benodol; neu beidio â gweithredu mewn ffordd benodol.
- 8.24 Nid oes gorfodaeth ar y person perthnasol i ymrwymo mewn cytundeb setlo ond os yw'n gwrthod gwneud hynny, gall y Comisiynydd benderfynu arfer pwerau gorfodi eraill.
- 8.25 Ni fernir bod y person perthnasol wedi cyfaddef y methiant i gydymffurfio dim ond oherwydd ei fod wedi ymrwymo mewn cytundeb setlo.

Apelau gan yr achwynydd a'r person perthnasol

- 8.26 Manylir ar hawl person perthnasol, ac achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd mewn cyswllt â dyfarnu ar ymchwiliad statudol yng nghymalau 8.4, 8.6 ac 8.7 y polisi hwn. Wrth ddyfarnu ar apêl, gall y Tribiwnlys naill ai gadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Mewn apêl fel a nodir yng nghymal 8.7, gall y Tribiwnlys gadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r camau gorfodi.
- 8.27 Mae i unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys pan wneir apêl yr un effaith â dyfarniad y Comisiynydd, a gellir ei orfodi yn yr un modd.
- 8.28 Os nad yw'r person perthnasol, neu'r achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, yn barti mewn apêl, bydd y Comisiynydd yn eu hysbysu o benderfyniad y Tribiwnlys.

¹³ Sefydlwyd y Gronfa gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cronfa ydyw o arian cyhoeddus a gaiff ei ddyrannu i Gymru drwy amryfal ffynonellau.

- 8.29 Wedi hynny, gall y Comisiynydd, yr achwynydd neu'r person perthnasol, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol yn deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.
- 8.30 Gall yr Uchel Lys gadarnhau penderfyniad y Tribiwnlys neu osod ei benderfyniad o'r naill du. Os bydd yr Uchel Lys yn gosod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, bydd rhaid iddo naill ai anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys i'w ailystyried neu ail-wneud y penderfyniad ei hun.
- 8.31 Noder bod yr apelau yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys. Ceir manylion pellach am y rheolau hynny ynghyd â manylion ynghylch sut i wneud apêl drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Tribiwnlys.

9 Methiant i gydymffurfio â safon

- 9.1 Lle dyfarnir, ar ddiwedd ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, bydd y Comisiynydd yn mynd ati i benderfynu pa gamau sydd i'w cymryd fel ymateb i'r methiant hwnnw.
- 9.2 Amlinellir isod y meini prawf y bydd y Comisiynydd yn eu dilyn wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Gan y bydd amgylchiadau pob methiant yn amrywio, bydd y Comisiynydd yn ystyried y ffeithiau unigol gan roi ystyriaeth i'r canlynol:
- A yw'r person perthnasol yn cydymffurfio'n rhannol neu ddim o gwbl?
 - Sut mae'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â'r safon?
 - A yw'r person perthnasol wedi cydnabod bod y methiant i gydymffurfio wedi digwydd?
 - A yw'r person perthnasol eisoes wedi cymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd?
 - A oes gan y person perthnasol hanes cydymffurfio da neu wael?
 - A yw'r person perthnasol wedi cydweithio gyda'r Comisiynydd wrth ymateb i'r methiant?
 - A oedd y person perthnasol yn ymwybodol bod y methiant yn bodoli?
 - A oedd y person perthnasol wedi dilyn cyngor a/neu argymhellion y Comisiynydd?
 - A oedd y methiant yn fwriadol?
 - A gafodd y person perthnasol unrhyw fudd ariannol neu unrhyw fantais arall o ganlyniad i'r methiant?
 - A oedd y person perthnasol wedi ymddwyn yn anonest?¹⁴
 - A yw'r methiant yn un sydd wedi digwydd o'r blaen?
 - A yw'r methiant wedi effeithio ar nifer fawr o bobl?
 - A yw'r methiant wedi effeithio ar iechyd neu lesiant unigolyn?
 - A yw'r methiant yn ganlyniad i gamgymeriad gweinyddol?
 - A yw'r methiant yn parhau?
- 9.3 Nid yw'r rhestr uchod o gwestiynau yn gynhwysfawr, ond fe'i defnyddir gan y Comisiynydd fel sail ar gyfer penderfynu ym mha fodd y dylid gweithredu, a hynny at y diben o atal methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.
- 9.4 I'r perwyl hwn, gall y Comisiynydd weithredu drwy un neu ragor o'r dulliau canlynol:
- (i) adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant;
 - (ii) gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant; neu
 - (iii) gosod cosb sifil am y methiant.

¹⁴ Os ymddengys bod person perthnasol wedi ymddwyn mewn modd anghyfreithlon, bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r Heddlu os yw hynny'n briodol.

(i) Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

9.5 Cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, bydd y Comisiynydd yn ceisio sicrhau bod person perthnasol yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd yn sgil y methiant. Bydd rhaid i'r Comisiynydd gael sicrwydd digonol ynghylch parodrwydd y person perthnasol i gydweithio ac i gymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

9.6 I'r perwyl hwn, mae sawl cam y gall y Comisiynydd benderfynu eu cymryd sef:

- o peidio â gweithredu ymhellach; neu
- o roi cyngor a/neu argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall; a/neu
- o geisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.

9.7 Bydd yr union gamau y bydd y Comisiynydd yn penderfynu eu cymryd yn dibynnu ar union natur y methiant dan sylw ynghyd â'r amgylchiadau cysylltiedig.

(ii) Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

9.8 Lle nad yw'n bosibl sicrhau bod person perthnasol yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd yn sgil y methiant, bydd y Comisiynydd yn cymryd camau i'w orfodi i gydymffurfio.


9.9 I'r perwyl hwn, mae sawl cam y gall y Comisiynydd benderfynu eu cymryd sef:

- o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd; a/neu
- o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd; a/neu
- o roi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio; a/neu
- o ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio.

(iii) Gosod cosb sifil am y methiant

9.10 Gyda methiannau o'r math mwyaf difrifol, bydd y Comisiynydd o'r farn fod angen gosod cosb sifil ar y person perthnasol ynghyd â chamau gorfodi eraill, a hynny er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Bydd gosod cosb sifil ar berson perthnasol hefyd yn fodd i'r Comisiynydd sicrhau bod hawliau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwarchod.

9.11 Eto, bydd amgylchiadau unigol pob methiant yn amrywio o achos i achos ac nid oes modd i'r Comisiynydd ddilyn meini prawf caeedig wrth benderfynu pa gamau y bydd am eu cymryd. Er hynny, cyflwyno'r ffigur isod drosolwg o'r camau y bydd y Comisiynydd yn eu cymryd gan amlaf. Mae'r ffigur hefyd yn adlewyrchu nod y Comisiynydd o ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth reoleiddio, a defnyddio'r gosb sifil gyda'r methiannau mwyaf difrifol yn unig.



Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

- Peidio â gweithredu ymhellach
- Rhoi cyngor a/neu argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
- Ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol

Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol lunio cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto
- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto
- Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon
- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant

Gosod cosb sifil am y methiant

- Gosod cosb sifil ar y person perthnasol

10 Cosb sifil

10.1 Wrth ystyried a yw am roi cosb sifil i berson perthnasol am fethu â chydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i sawl mater gwahanol. Mae Mesur y Gymraeg yn gosod dyletswydd benodol ar y Comisiynydd i roi sylw i rai materion penodol ac unrhyw faterion eraill wrth wneud penderfyniadau yn y cyswllt hwn.

10.2 Y materion penodol hynny y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw iddynt yw'r canlynol:

- o pa mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef;
- o amgylchiadau'r person y mae'r gosb sifil i'w rhoi iddo; a'r
- o angen am atal parhau neu ailadrodd y mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef.

10.3 Bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi sylw i unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad statudol dan sylw. Nid yw unrhyw un o'r materion hyn yn bwysicach na'i gilydd ac fe'u hystyrir ochr yn ochr â'i gilydd.

Pa mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef:

10.4 Wrth ddod i benderfyniad ynghylch rhoi cosb sifil i berson perthnasol ai peidio, bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r fframwaith penderfynu canlynol wrth ddod i farn ynghylch difrifoldeb methiant.

Cwestiwn 1: A oes yna fethiant difrifol i gydymffurfio?

10.5 Gall y math o fethiannau a gaiff eu hystyried yn rhai difrifol gynnwys, ond nid ydynt wedi'i cyfyngu i fethiannau fel, y canlynol:

- o methiant sydd wedi rhoi unigolyn dan anfantais;
- o methiant sydd wedi amharu ar broses ddemocrataidd;
- o methiant sydd wedi effeithio ar iechyd neu lesiant unigolyn;
- o methiant sydd wedi achosi niwed neu drallod i unigolyn¹⁵;
- o methiant i ddarparu gwasanaeth sy'n angenrheidiol neu'n orfodol;
- o methiant sydd wedi achosi colled i unigolyn; a
- o methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodwyd yn dilyn ymchwiliad statudol blaenorol.

Cwestiwn 2: A oedd y methiant i gydymffurfio yn fwriadol?

10.6 Bydd y Comisiynydd yn ystyried methiant yn un bwriadol os bydd person perthnasol wedi cymryd camau neu heb gymryd camau penodol gyda'r bwriad o beidio â chydymffurfio. Gall y ffaith nad yw person perthnasol wedi cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth fodloni'r amod hon.

¹⁵ Yr hyn a olygir gan 'niwed' yw unrhyw golled y gellir ei fesur yn ariannol. O ran 'trallod', gall hynny gynnwys unrhyw anaf corfforol, anaf i deimladau neu unrhyw bryder a achoswyd i unigolyn.

Cwestiwn 3: A oedd y person perthnasol yn gwybod neu a ddylai'r person perthnasol fod wedi gwybod bod risg y byddai methiant yn digwydd a bod y methiant hwnnw'n debygol o fod yn un difrifol?

10.7 Bydd y Comisiynydd yn casglu bod person perthnasol yn gwybod neu y dylai fod wedi gwybod bod risg y byddai methiant yn digwydd a'i fod yn debygol o fod yn un difrifol os:

- o oedd tebygolrwydd methiant wedi bod yn amlwg i unrhyw berson rhesymol yn nhyb y Comisiynydd;
- o oedd y person perthnasol yn ymwybodol fod y methiant yn debygol a heb gymryd camau digonol i atal y methiant hwnnw rhag digwydd; neu os
- o nad oedd y person perthnasol wedi cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Cwestiwn 4: A gymerwyd unrhyw gamau rhesymol i geisio atal y methiant rhag digwydd?

10.8 Gall y Comisiynydd ystyried bod person perthnasol wedi cymryd camau rhesymol i geisio atal y methiant rhag digwydd os ydyw wedi gweithredu yn unol â:

- o chanllawiau perthnasol gan y Comisiynydd;
- o cyngor neu argymhellion y Comisiynydd; neu
- o godau ymarfer perthnasol a ddyroddir gan y Comisiynydd.

10.9 Ni fydd y ffaith fod person perthnasol wedi cymryd camau rhesymol i geisio atal y methiant rhag digwydd ynnddi ei hun yn golygu na fydd y Comisiynydd am roi cosb sifil iddo. Bydd penderfyniad y Comisiynydd yn dibynnu ar y mathau o gamau a gymerwyd ac a oedd difrifoldeb y methiant ei hun yn sylweddol uwch na'r camau a gymerwyd.

Amgylchiadau'r person perthnasol y mae'r gosb sifil i'w rhoi iddo:

10.10 Wrth ddod i benderfyniad ynghylch rhoi cosb sifil i berson perthnasol ai peidio, bydd y Comisiynydd yn ystyried a fyddai gwneud hynny'n gymesur ag amgylchiadau'r person perthnasol ar yr adeg y gwneir y penderfyniad.

Yr angen am atal parhau neu ailadrodd y mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef:

10.11 Wrth ddod i benderfyniad ynghylch rhoi cosb sifil i berson perthnasol ai peidio, bydd y Comisiynydd yn ystyried a fyddai gosod camau gorfodi eraill yn ddigonol er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Materion perthnasol eraill:

10.12 Gall y Comisiynydd roi sylw i unrhyw fater arall sy'n berthnasol, yn nhyb y Comisiynydd, wrth benderfynu a ddylid rhoi cosb sifil i berson perthnasol ai peidio.

10.13 Fel mater o bolisi, wedi i'r Comisiynydd benderfynu rhoi cosb sifil i berson perthnasol, y swm fydd £5,000. Gobaith y Comisiynydd wrth ddefnyddio'r uchafswm fydd sicrhau ataliaeth ddigonol mewn perthynas â'r methiant; atal personau perthnasol eraill rhag methu â chydymffurfio yn yr un modd ynghyd â sicrhau y caiff hawliau defnyddwyr y Gymraeg eu gwarchod yn ddigonol.

11 Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi neu gytundeb setlo

- 11.1 Mewn achosion lle bo'r Comisiynydd wedi ymrwymo mewn cytundeb setlo â'r person perthnasol neu wedi gosod un neu fwy o gamau gorfodi arno, bydd y Comisiynydd yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gofynion hynny er mwyn sicrhau bod yr amcanion rheoleiddio yn cael eu cyflawni.
- 11.2 Gall ddod i'r amlwg mewn rhai achosion fod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn. Gydag achosion felly, bydd y Comisiynydd yn dwysáu yn ymateb drwy gymryd camau pellach yn erbyn y person perthnasol.

Methiant i gydymffurfio â chytundeb setlo

- 11.3 Os amlygir bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn cytundeb setlo, gall y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi'r person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.
- 11.4 Noder bod hawl y Comisiynydd i wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi cydymffurfiaeth â chytundeb setlo yn gymwys am gyfnod perthnasol o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir iddo yn y cytundeb setlo.

Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi

- 11.5 Os amlygir bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi a osodwyd arno, mae sawl cam gwahanol y gall y Comisiynydd ei gymryd yn erbyn y person perthnasol. Fel gyda'r uchod, fe all y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi'r person perthnasol i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Mae hawl y Comisiynydd i wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi cam gorfodi yn gymwys am gyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol, neu mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â chynllun gweithredu, y diwrnod y daw'r cynllun gweithredu i rym.
- 11.6 Gall y Comisiynydd hefyd gynnal ymchwiliad statudol pellach i a yw person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi a osodwyd arno. Bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i'r meini prawf a amlinellir yn adran 6 y polisi hwn wrth ddod i benderfyniad ar y ffordd mwyaf priodol o weithredu.
- 11.7 Yn wahanol i ymchwiliad statudol a gynhelir i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, nid oes rhaid i'r Comisiynydd amau bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi er mwyn cynnal ymchwiliad statudol fel a amlinellir yn 11.6.
- 11.8 I'r perwyl hwn, ni fydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle i'r person perthnasol ymateb i'r honiadau cyn mynd ati i benderfynu a ddylid cynnal yr ymchwiliad ai peidio. Ac eithrio hynny, dilytir yr un prosesau ag a amlinellir yn adrannau 7 – 10 o'r polisi hwn, gan eithrio unrhyw gyfeiriadau sydd at achwynydd a gan ddarllen unrhyw gyfeiriad at 'safon' fel cyfeiriad at 'gam gorfodi'. Noder bod gan y Comisiynydd yr un pwerau ar gael ag sydd

mewn ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon.¹⁶

- 11.9 Mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â chosb sifil a osodir, nid yw'r uchod yn berthnasol. Er hynny, gall y Comisiynydd adfer cosb sifil na chaiff ei thalu fel dyled sy'n ddyledus i'r Comisiynydd. Gall hynny gynnwys cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person perthnasol yn y Llys Sifil.

¹⁶ Noder mai dim ond mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â safon y gall y Comisiynydd geisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda pherson perthnasol.

12 Cydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill

12.1 Mae adrannau 20 a 21 Mesur y Gymraeg yn amlinellu i ba raddau y gall y Comisiynydd weithio'n gyfochrog â'r Ombwdsmon¹⁷ a chomisiynwyr eraill¹⁸.

12.2 Os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd y gallai pwnc ymchwiliad statudol y Comisiynydd hefyd fod yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon neu gomisiynydd arall, bydd y Comisiynydd, os yw o'r farn fod hynny'n briodol, yn gwneud y canlynol:

- o hysbysu'r Ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol o'r ymchwiliad statudol, gan gynnwys cynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad statudol; ac
- o ymgynghori â'r Ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol mewn perthynas â'r ymchwiliad statudol.

12.3 Os canfyddir, yn sgil yr uchod, bod y ddau barti yn ymchwilio i'r un mater, gallant wneud un neu ragor o'r canlynol:

- o cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau;
- o cynnal ymchwiliad ar y cyd; a
- o pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu â'u hymchwiliad ar y cyd.

12.4 Os na fydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd, os yw o'r farn fod hynny'n briodol, yn rhoi gwybodaeth i'r person sy'n dymuno dwyn yr achos wybodaeth ynglŷn â sut i gyfeirio'r mater cysylltiedig at yr Ombwdsmon neu gomisiynydd perthnasol arall. Bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr achos.

¹⁷ Sef Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

¹⁸ Sef Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

13 Cofrestr camau gorfodi

13.1 Yn unol ag adran 109(1) Mesur y Gymraeg, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynnal cofrestr camau gorfodi sy'n nodi manylion yr holl ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd.

13.2 Mae copi o'r gofrestr gyfredol ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r Comisiynydd ac mae copi electronig ar gael ar wefan y Comisiynydd.

13.3 Mae'r gofrestr yn cynnwys y manylion canlynol:

- o disgrifiad o bob ymchwiliad statudol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd;
- o canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliadau statudol;
- o dyfarniad y Comisiynydd ar yr ymchwiliadau statudol;
- o datganiad sy'n nodi a weithredodd y Comisiynydd ymhellach ai peidio;
- o os gweithredodd y Comisiynydd ymhellach, datganiad ynglŷn â'r gweithredu hwnnw;
- o manylion hysbysiadau penderfynu; a
- o manylion apelau a wnaed i'r Tribiwnlys o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

13.4 Bydd y Comisiynydd yn diweddarau'r gofrestr yn barhaus.

14 Rhestr termau

14.1 Nid yw'r rhestr termau canlynol yn cynnwys diffiniadau cyfreithiol ond maent yn rhoi eglurhad cryno o'u hystyron.

Term	Eglurhad
Camau gorfodi	<p>Camau gorfodi yw'r enw a roddir ar y camau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gofyniad ar y person perthnasol i baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd; ○ gofyniad ar y person perthnasol i gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd; ○ y Comisiynydd yn rhoi cyhoedduswydd i fethiant person perthnasol i gydymffurfio; ○ gofyniad ar y person perthnasol i roi cyhoedduswydd i'w fethiant i gydymffurfio; a ○ chosb sifil a osodir ar y person perthnasol.
Cofrestr camau gorfodi	<p>Dyma'r enw a roddir ar y gofrestr y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei chynnal. Gweler adran 13 y polisi hwn am ragor o fanylion.</p>
Comisiynydd	<p>Mae pob cyfeiriad at y Comisiynydd yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Gomisiynydd y Gymraeg, swydd a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p>
Cwyn statudol	<p>Cwyn y gall unrhyw berson ei chyflwyno i'r Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad person perthnasol mewn cysylltiad â safon y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi. Gweler adran 4 y polisi hwn am ragor o fanylion.</p>
Cytundeb setlo	<p>Mae ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo yn un o'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd ar ôl dyfarnu, yn sgil ymchwiliad statudol, fod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon. Gweler cymalau 8.23 – 8.25 y polisi hwn am ragor o fanylion.</p>
Diwrnod gosod	<p>Y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson perthnasol gydymffurfio â safon, neu â safon mewn modd penodol.</p>
Hysbysiad cydymffurfio	<p>Hysbysiad a roddir gan y Comisiynydd i berson perthnasol sy'n manylu ar y safonau penodol y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hwy ynghyd â'r diwrnodau gosod ar gyfer y safonau hynny.</p>
Hysbysiad tystiolaeth	<p>Hysbysiad y gall y Comisiynydd ei roi i berson mewn ymchwiliad statudol. Gall hysbysiad tystiolaeth gynnwys gofyniad ar berson i wneud un neu ragor o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ darparu gwybodaeth sy'n ei feddiant; ○ cyflwyno dogfennau sy'n ei feddiant; a ○ rhoi tystiolaeth lafar. <p>Gweler cymalau 7.6 – 7.15 y polisi hwn am ragor o fanylion.</p>

Term	Eglurhad
Mesur y Gymraeg	Mae pob cyfeiriad at Fesur y Gymraeg yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
Person perthnasol	Person perthnasol yw'r enw a roddir ar sefydliad sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad.
Polisi Gorfodi	<p>Y ddogfen hon. Dogfen ydyw y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ei llunio o dan adran 108 Mesur y Gymraeg ac sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.</p> <p>Ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio na diwygio'r ddogfen heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.</p>
Pŵer i fynd i mewn i fangre ac i archwilio	<p>Pŵer sydd gan y Comisiynydd mewn cysylltiad ag ymchwiliad statudol. Gall y Comisiynydd fynd i mewn i fangre sydd o dan reolaeth person perthnasol yr ymchwilir iddo os yw o'r farn fod ei harchwilio yn angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad. Gweler cymalau 7.16 a 7.17 am ragor o fanylion.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn gymwys hefyd mewn perthynas â bod y Comisiynydd yn ystyried a yw cynllun gweithredu drafft yn ddigonol. Gweler cymal 8.12 am ragor o fanylion.</p>
Safonau	<p>Mae pob cyfeiriad at safonau yn y ddogfen hon yn cyfeirio at safonau ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ cyflenwi gwasanaethau; ○ llunio polisi; ○ gweithredu; ○ hybu; a ○ chadw cofnodion.
Swyddogaethau rheoleiddiol	Dyma'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio dyletswyddau a phwerau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
Y Tribiwnlys	Mae pob cyfeiriad at y Tribiwnlys yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Dribiwnlys y Gymraeg. Sefydlwyd y Tribiwnlys gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddelio ag apelau a cheisiadau am adolygiad o rai o benderfyniadau'r Comisiynydd. Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Tribiwnlys.
Ymchwiliad statudol	Ymchwiliad statudol yw ymchwiliad a gynhelir gan y Comisiynydd o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn dyfarnu a yw person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd arno ai peidio. Gall gofyniad o'r fath fod yn safon y mae'n ofynnol i'r person perthnasol gydymffurfio â hi neu'n gam gorfodi a osodwyd arno yn sgil ymchwiliad statudol blaenorol.

15 Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd

- 15.1 Mae gan y Comisiynydd weithdrefn gwyno benodol ar gael os bydd unrhyw berson yn dymuno cwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.
- 15.2 Mae'r weithdrefn hon wedi ei sefydlu yn unol ag adran 14 Mesur y Gymraeg.
- 15.3 Mae manylion pellach am y weithdrefn hon ar gael ar ei wefan neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd.
- 15.4 Gellir cysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
comisiynyddygybraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 23 2014
TEITL:	STRWYTHUR YMCHWIL AR GYFER Y PWYLLGOR IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CANFOD BARN Y PWYLLGOR AR Y POSIBILIADAU A'R MEYSYDD GWAITH

1. CEFNDIR

- 1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar 26/06/14, mynegwyd dymuniad i'r Pwyllgor gymryd rôl fwy rhagweithiol mewn perthynas â rhai meysydd: Un fyddai'n arwain at ymateb mwy manwl ac argymhellion mwy pendant na'r drefn a ganiateir gan gyfarfodydd arferol y Pwyllgor.
- 1.2. Nodwyd y byddai angen fod yn sicr ynglŷn â phwrpas unrhyw rôl newydd a hefyd ynglŷn â digonolrwydd ein strwythurau i gefnogi cynnig o'r math. Pwrpas yr Adroddiad yma yw amlinellu be all fod yn bosib ac i bennu pa feysydd a ddymunai'r Pwyllgor ymgymryd â hwy.
- 1.3. Byddai angen i unrhyw drefn fod yn gydnaws a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Iaith:
 - Goruchwyllo Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd
 - Pennu cyfeiriad strategol ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen
 - Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir, gan wneud awgrymiadau i'r Cabinet yn ôl yr angen.

2. POSIBILIADAU AR GYFER Y STRWYTHUR YMCHWIL.

- 2.1. Er mwyn cadw ffocws clir i'r gwaith, awgrymir cynnal un ymchwiliad yn unig ar y tro, gydag uchafswm o 2 ymchwiliad o fewn blwyddyn galendr. Byddai hyn yn gyffelyb a'r drefn Ymchwiliadau Craffu.
- 2.2. Bydd angen penderfynu os yw'r strwythur am gyfarch anghenion mewnol y Cyngor yntau materion ehangach yn ogystal. Sylwer fodd bynnag mai Pwyllgor sy'n ymwneud a pholisïau a threfniadau'r Cyngor yw'r Pwyllgor Iaith. Os mai ymarferoldeb a chanlyniadau clir yw'r amcan, byddai hyn yn llawer haws i'w gyflawni drwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd o fewn ein rheolaeth.

- 2.3. O adnabod meysydd mewnol, byddai modd i Is-grŵp o'r Pwyllgor Iaith drafod y mater mewn manylder a chyflwyno argymhellion i'r Adran neu Uned berthnasol, gan wneud cais am ymateb a monitro gweithrediad.
- 2.4. O edrych yn ehangach na gweithdrefnau'r Cyngor, bydd rhaid derbyn na fydd datrysiadau ymarferol mor hawdd i'w cyflawni os nad oes gennym unrhyw awdurdod neu ddylanwad dros y sefydliad dan sylw. Mae'n debyg mai gwaith lobïo yn hytrach na diwygio a gwella byddai'n codi o drafodaethau o'r math yma. Dylid nodi'n ogystal y gall trafodaethau cymhleth a maith fod yn fwy o draul ar gapasiti'r Cyngor.

3. YSTYRIAETHAU

- 3.1. Gofynnir am farn y Pwyllgor Iaith ar:
 - Yr awgrymiadau strwythurol a amlinellir yn yr Adroddiad hwn
 - Blaenoriaethau ar gyfer meysydd ymchwil pellach.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 23 2014
TEITL:	YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNGOR 2013-14
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CYFLWYNO'R YMATEB A'N SYLWADAU I'R PWYLLGOR

1. ADRODDIAD MONITRO IAITH

- 1.1. Ymhellach i'n Hadroddiad Monitro Iaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, dyma sylwadau Comisiynydd y Gymraeg.
- 1.2. Roedd gofyn i ni ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith; anfonwyd ein sylwadau o fewn yr amserlen yma.

2. YMATEB I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG.

- 2.1. Noder bod y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig, gyda rhai ymholiadau i'w trafod fel rhan o'r cyfarfod adborth. I bwrpas yr adroddiad hwn, rhoddir ymateb ysgrifenedig i'r holl ymholiadau a godwyd gan y Comisiynydd.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1. Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'n Hadroddiad a'n ymateb ninnau i'r cais am wybodaeth bellach.

**Sylwadau Cyngor Gwynedd ar Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad
Monitro Blynyddol 2013-14**

Cydymffurfio a'r Cynllun Iaith

Gofynion Gweithredu	Sylwadau'r Cyngor
<p>B.1 Yn adroddiad monitro 2012-13 cyfeiriwyd at adolygu amodau nawdd a grantiau'r Adran Economi a Chymuned mewn perthynas â'r Gymraeg. Nodwyd yn ystod y broses fonitro y byddai cyfle i ystyried yr amodau eto pan gyflwynid grantiau newydd. A fu datblygiadau pellach yn y maes hwn?</p>	<p>Ni fu unrhyw ddatblygiad. O drafod y sefyllfa gyda'r Uned Grantiau Busnes, ymddengys na fydd y strwythurau newydd mewn lle tan Fehefin 2015. Yn dilyn hyn, byddwn yn adolygu ein hamodau yn unol â'r bwriad a nodwyd eisoes er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r Gymraeg hyd orau ein gallu</p> <p>Yn y cyfamser, bydd Adroddiad yn cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor Iaith i amlinellu rôl y Cyngor a Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector fusnes.</p>
<p>C.1 Darparwch ddiweddariad ar y broses derbyn adborth [gan wahanol Adrannau'r Cyngor] os gwelwch yn dda.</p>	<p>Sefydlwyd trefn o gyflwyno adroddiadau Adrannol/ Unedol i'r Pwyllgor Iaith. Hyd yma, cafwyd cyflwyniadau ar drefniadau'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio a'r iaith Gymraeg • Adnoddau Dynol (recriwtio) • Canolfannau Hamdden • Gosodiadau Tai Cymdeithasol
<p>D.3 Nodwyd yn yr adroddiad monitro diwethaf fod yr Uned Hyfforddiant yn datblygu rhaglen e-ddysgu. Pryd y bwriedir cyflwyno'r modiwl Ymwybyddiaeth Iaith?</p>	<p>Byddwn yn addasu ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith er mwyn ei gyflwyno fel modiwl e-ddysgu.</p> <p>Mae'r Uned Hyfforddiant ar hyn o bryd yn llunio modiwlau. Rhagwelir y bydd Ymwybyddiaeth Iaith yn barod ymhen tua 12 mis.</p>
<p>3.C Hoffem drafod hyn [Cynllun Pencampwyr Iaith y Canolfannau Hamdden] yn ein cyfarfod adborth.</p>	<p>Trafodwyd ar 09/10/14, gyda'r sgwrs yn seiliedig ar y cyflwyniad a wnaethpwyd ar y Cynllun Pencampwyr Iaith i'r Pwyllgor Iaith (04/04/14)</p>

<p>4 Darparwch ddiweddariad ar gynnydd [cydymffurfiaeth a gofynion contractau gofal cymdeithasol darparwyr gofal cartref] yn y dyfodol, os gwelwch yn dda</p>	<p>Byddwn mewn gwell sefyllfa i ddarparu adroddiad pellach ymhen blwyddyn.</p> <p>Mae'r trefniadau a'r gofynion newydd wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, bydd angen amser i fonitro cydymffurfiaeth yr holl contractau yn erbyn y safonau diweddar cyn y byddwn mewn sefyllfa i fesur cynnydd yn erbyn y gofynion ychwanegol ar draws yr holl gytundebau.</p> <p>Yn amlwg, byddwn yn adrodd yn rheolaidd ar ôl hyn, yn unol â gofynion Mwy Na Geiriau a'r Safonau Iaith</p>
<p>Adroddwch ar gydymffurfiaeth darparwyr gofal cartref yn 2013/14 os gwelwch yn dda</p>	<p>Cyflwynwyd y Contractau Gofal Cartref a'r gofynion newydd i'r darparwyr, ond gan fod adnoddau yn brin yn ystod 2014, ni fydd yn bosib darparu adroddiad cynhwysfawr ar y maes yma ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r Tîm Contractau yn mynd i'r afael a'r gwaith, ac fel gyda'r ymateb uchod, byddwn yn adrodd ar berfformiad a chynnydd yn unol â'r gofynion.</p>
<p>5.A sawl Aelod etholedig dderbyniodd yr hyfforddiant [Ymwybyddiaeth Iaith]? A hyfforddwyd unrhyw aelodau staff?</p>	<p>Darparwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i 3 Aelod Etholedig. Siomedig fu'r ymateb, a byddwn yn cynnig yr hyfforddiant drachefn yn ystod 2015.</p> <p>Heblaw am elfen ar Ymwybyddiaeth Iaith a gyflwynir fel rhan o'r broses anwytho, ni chyflwynwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith fel cwrs unigol i staff. (Er bod y cwrs ar gael i bawb).</p> <p>Oherwydd newidiadau yn ein dulliau anwytho staff newydd yn y dyfodol, byddwn yn anelu at ddarparu Ymwybyddiaeth Iaith drwy e-ddysgu</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Uned Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol mewn trafodaethau gyda'r Swyddog Datblygu Gweithlu ynglŷn â chael elfen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn rhan o'r gwersi Cymraeg a gyflwynir i staff Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>

7.A Darparwch gopi o'r Strategaeth [laith] os gwelwch yn dda.	Atodir copi drafft o'r Strategaeth. Disgwylir i'r ddogfen gael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd.
--	--

Derbyniwyd cais am ymateb i'r uchod gan Swyddfa'r Comisiynydd ar 21/08/14:
Anfonwyd yr ymateb uchod ar 08/09/14

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 23 2014
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF A DIWEDDARU'R IS-BWYLLGOR

CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR, PARTNERIAID NEU SEFYDLIAD TRYDYDD PARTI

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Mehefin 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd, a gyflwynwyd drwy'r Comisiynydd, ynglŷn â'r ffaith y cafodd ei chyfeirio gan yr Uned Safonau Masnach i rif lle nad oedd person Cymraeg ar gael ar y pryd i ymateb i'r galwad	<p>Esboniwyd i'r cwynydd nad yw'n swyddogaeth statudol i'r Cyngor ddarparu cyngor i ddefnyddwyr bellach. Trosglwyddwyd ei ymholiad o'r Cyngor ac i ganolfan gyswllt CAB (nid yw'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaeth penodol yma).</p> <p>Mae'r cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth i CAB yn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg; ond nid oedd siaradwr Cymraeg ar gael pan drosglwyddwyd yr ymholiad yma.</p> <p>Mae'r Uned Safonau Masnach wedi codi'r mater gyda CAB, ac wedi derbyn cadarnhad y bydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod adolygu cytundeb nesaf.</p>
Mehefin 2014	Cwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg o'r Uned Cefnogi Busnes	<p>Wedi ymchwilio'r mater, ymddengys bod yr Uned wedi ymateb drwy gyfrwng y Saesneg i gais a gohebiaeth uniaith Saesneg anfonwyd atynt (ymateb yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor).</p> <p>Esboniwyd y sefyllfa i'r cwynydd ac anfonwyd fersiwn Cymraeg o'r llythyr ato.</p>
Gorffennaf 2014	Cwyn a gyfeiriwyd gan y Comisiynydd ynglŷn ag arwydd uniaith Saesneg ar yr A487 ger Groeslon	Yr Uned berthnasol wedi codi a datrus y mater gyda'r ymgwymerwyr, gan ail-bwysleisio'r angen am arwyddion dwyieithog

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Gorffennaf 2014	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o enwau dwyieithog ar strydoedd Gwynedd	<p>Esbonio'r sefyllfa (fel ag amlinellir mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor Iaith 11/10/12). Pwysleisio mai polisi'r Cyngor yw arddel y fersiwn Cymraeg o unrhyw enw.</p> <p>Noder bod yr Adran Ymgynghoriaeth yn darparu Polisi newydd ar enwau strydoedd, i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Iaith yn 2015.</p>
Awst 2014	Cwyn ynglŷn â diffyg defnydd o'r Gymraeg ar noson agored Pont Briwet	<p>Cysylltu â'r Adran am ymateb: Er mwyn sicrhau lefel ddigonol o arbenigedd i ateb yr ystod ehangaf o gwestiynau, cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolydd y contractwyr (oedd yn ddi-Gymraeg).</p> <p>Gan mai cyflwyniad wrth grwydro'r safle oedd hwn, nid oedd cyfieithu-ar-y-pryd yn addas ychwaith. Fodd bynnag, trefnwyd i sylwebwyr dwyieithog o staff y Cyngor fod ar gael i esbonio ac ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
Hydref 2014	Cwyn gyffredinol ynglŷn â thrafferthion gyda gwefan Gymraeg y Cyngor ac arwydd Teledu CC uniaith Saesneg	Tîm y we wedi holi am fwy o wybodaeth er mwyn ymchwilio'r gwyn a'r Uned berthnasol yn ymchwilio os mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am yr arwydd dan sylw
Hydref 2014	Ymholiad ynglŷn â chyfrwng iaith gwersi nofio	<p>Mae'n ymddangos o ymholiadau cychwynnol nad y Cyngor sy'n darparu'r gwersi penodol hyn, ond yn hytrach clwb nofio lleol.</p> <p>Mae'r Adran yn y broses o gadarnhau beth yw ein perthynas gyda'r clwb, cyn mynd ymhellach.</p>